

# Datgelu Categorïau Arbennig o Ddata Personol – Protocol i'r Aelodau Etholedig

## Contents

1. Diben .....	1
2. Rôl y Cynghorydd.....	1
3. Diffinio categorïau arbennig o ddata personol .....	2
4. Datgelu i Gynghorydd sy'n cynrychioli trigolion lleol .....	2
5. Datgelu gwybodaeth pan ddaw'r cais oddi wrth unigolyn heblaw'r testun data .....	3
6. Datgelu i Gynghorydd yn rhinwedd ei swydd fel Aelod o'r Cabinet .....	3
7. Datgelu i Gynghorydd pan fo'n cynrychioli plaid wleidyddol.....	4
8. Ceisiadau am Ddata Personol sy'n cael ei ddal gan Gynghorwyr .....	4
9. Rheoli Risg, Cadw Cofnodion a Chydweithredu .....	4
Atodiad 1 .....	7
Atodiad 2 .....	8

## 1. Diben

- 1.1 Diben y Protocol hwn yw amlinellu'r amgylchiadau derbynol ar gyfer datgelu a defnyddio categorïau arbennig o ddata personol gan bob cynghorydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- 1.2 O dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (y Ddeddf) a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (y Deyrnas Unedig) (GDPR), mae'n rhaid i'r Cynghor ystyried nifer o agweddau wrth benderfynu a ddylid datgelu categorïau arbennig o ddata personol (data sensitif) i Gynghorwyr. Nodir y rhain yn y protocol hwn.
- 1.3 Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn pan geir ceisiadau (naill ai drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ceisiadau Testun am Weld Data neu geisiadau gan Gynghorwyr) am weld data personol sy'n cael ei gadw gan Gynghorwyr.

## 2. Rôl y Cynghorydd

2.1 Mae gan Gynghorwyr dair rôl wahanol:

- a) maen nhw'n cynrychioli trigolion eu ward;
- b) mae'n nhw'n gweithredu fel aelod o'r cynghor, er enghraifft, fel aelod o'r cabinet neu fel aelod o bwyllgor; ac
- c) mae'n bosibl eu bod yn cynrychioli plaid wleidyddol, yn enwedig adeg etholiad.

- 2.2 Gan ddibynnu ar y rôl sydd gan y cynghorydd ar unrhyw un adeg, o dan y Ddeddf fe all fod y Cyngor o dan ddyletswydd i ddatgelu categorïau arbennig o ddata personol iddynt. Wrth wneud hynny, bydd angen cyfyngu sut y defnyddir unrhyw wybodaeth o'r fath at ddibenion penodol.
- 2.3 Rhaid i'r Cynghorydd perthnasol fynd ati bob tro i ddarllen a chytuno ar y rhestr wirio datgelu data categori arbennig a hynny cyn iddo gael unrhyw ddata (Atodiad 1). Bydd cofnod o'r ceisiadau hyn yn cael ei gadw gan y Gyfarwyddiaeth berthnasol.

### 3. Diffinio categorïau arbennig o ddata personol

- 3.1 O dan y Ddeddf, diffinnir categorïau arbennig o ddata personol yr unigolyn fel:
- ei darddiad hiliol neu ethnig;
  - ei safbwyntiau gwleidyddol;
  - ei gredoau crefyddol neu athronyddol;
  - ei aelodaeth undeb llafur;
  - ei iechyd;
  - ei fywyd rhyw neu ei gyfeiriadedd rhywiol;
  - ei ddata biometrig

### 4. Datgelu i Gynghorydd sy'n cynrychioli trigolion lleol

- 4.1 At ei gilydd, does dim rhaid i'r Cyngor sicrhau cydsyniad pendant yr unigolyn i ddatgelu data personol i aelod etholedig, ar yr amod:
- bod yr aelod etholedig yn cynrychioli'r ward y mae'r unigolyn yn byw ynddi;
  - bod yr aelod etholedig yn ei gwneud yn glir ei fod yn cynrychioli'r unigolyn mewn unrhyw gais am ei wybodaeth bersonol i'r Cyngor; a
  - bod yr wybodaeth yn angenrheidiol at ddibenion y camau y mae'n rhesymol i'r aelod etholedig eu cymryd mewn ymateb i gais yr unigolyn, neu mewn cysylltiad â'r camau hynny.
- 4.2 Os yw cynghorydd wedi cytuno ei fod yn gofyn am gategoriâu arbennig o ddata personol (gweler 3.1), yna mae'n **rhaid** llenwi Atodiad 1 cyn i'r cynghorydd gael yr wybodaeth gan y Cyngor.
- 4.3 Ran amlaf, byddai'n rhesymol i'r unigolyn ddisgwyl i'r Cyngor ddatgelu ei ddata personol i'r aelod etholedig ac fe ddylai gael ei ddatgelu. Gall fod achlysuron pan fo'n ddoeth i'r cynghorydd sicrhau cydsyniad ysgrifenedig wedi ei lofnodi gan yr unigolyn. Amgylchiadau lle byddai'n ddoeth sicrhau cydsyniad wedi'i lofnodi yw lle mae'r data'n sensitif iawn ac nad yw'r cyfarwyddiadau i weithredu ar ran yr etholwr yn glir iawn. Mae ffurflen, y gallech ei defnyddio, yn gysylltiedig â'r polisi hwn. Bydd angen i'r Cynghorwyr a staff y Cyngor arfer eu barn fesul achos unigol a gweithio gyda'i gilydd i nodi'r achosion hynny lle y gallai gweithredu ar sail cydsyniad ymhlwg neu lafar yn unig adael y Cyngor neu'r Cynghorydd yn agored i gwyn ddilynol o drafod data mewn modd gwael (Atodiad 2).
- 4.4 Wrth ddarparu gwybodaeth bersonol i'r Cynghorydd, mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn glir fod rhaid i Gynghorwyr beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol ymhellach heb gydsyniad

pendant person sydd wedi'i awdurdodi i roi cydsyniad o'r fath neu oni bai ei bod yn ofynnol iddo wneud hynny o dan y gyfraith.

4.5 Dim ond i helpu'r unigolyn y rhoddir gwybodaeth bersonol i Gynghorydd a rhaid peidio â'i defnyddio at yr un diben arall. Rhaid iddyn nhw gadw'r data hwn yn ddiogel bob amser. Tudalen 2 o 84.6 Ni fydd y Cyngor yn caniatáu i Gynghorwyr weld unrhyw gronfeydd data gan fod rhaid i bob cais am ddata gael ei asesu fesul achos unigol.

4.7 Pan gaiff y Cynghorydd gopi o'r data categori arbennig, rhaid i'r Cyngor sicrhau bob amser fod y data'n cael ei gadw'n ddiogel ac nad yw'n cael ei rannu mewn modd amhriodol.

## **5. Datgelu gwybodaeth pan ddaw'r cais oddi wrth unigolyn heblaw'r testun data**

5.1 Gall fod amgylchiadau lle cyfarwyddir yr aelod etholedig gan etholwr i ofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol a fydd yn cynnwys gwybodaeth am **etholwr gwahanol**.

5.2 Dim ond ar yr amodau a ganlyn y gall gwybodaeth gael ei datgelu:

- (a) bod y cynrychiolydd etholedig yn gweithredu mewn cysylltiad â chyflawni ei ddyletswyddau fel cynrychiolydd
- (b) bod y gwaith prosesu'n cael ei wneud yn unol â chais a wnaed gan unigolyn nad yw'n destun y data er mwyn gweithredu ar ran y testun data neu unrhyw unigolyn arall
- (c) bod y gwaith prosesu'n angenrheidiol at ddibenion y camau sy'n cael eu cymryd yn rhesymol gan y cynrychiolydd etholedig yn unol â'r cais, neu mewn cysylltiad â'r camau hynny.

### **A**

**bod hynny'n cael ei wneud heb gydsyniad pendant y testun data oherwydd:-**

- (i) na all y testun data roi cydsyniad o dan yr amgylchiadau,
- (ii) nad yw'n rhesymol disgwyl o dan yr amgylchiadau i'r cynrychiolydd etholedig sicrhau cydsyniad y testun data;
- (iii) y byddai sicrhau cydsyniad y testun data yn peryglu'r camau sy'n cael eu cymryd gan y cynrychiolydd etholedig, neu
- (iv) bod angen gwneud hynny er budd unigolyn arall a bod y testun data wedi cadw ei gydsyniad yn ôl mewn modd afresymol.

5.3 **Mae cyfrifoldeb dros fod yn fodlon bod yr amodau uchod wedi'u bodloni ar yr aelod etholedig ac ar y Cyngor. Os nad yw'r aelod etholedig ar dir i fodloni'r amodau, yna ni ddylai wneud cais. Os nad yw'r Cyngor yn fodlon bod yr amodau wedi'u bodloni, ni ddylai ryddhau'r wybodaeth.**

## **6. Datgelu i Gynghorydd yn rhinwedd ei swydd fel Aelod o'r Cabinet**

6.1 Caiff y Cyngor ddatgelu categorïau arbennig o ddata personol i gynghorydd os oes angen iddo sicrhau'r data a defnyddio'r data i gyflawni dyletswyddau swyddogol fel Aelod o'r

Cabinet. Gallai hyn ganiatáu iddo weld gwybodaeth ar draws nifer o wardiau yn unol â'i gyfrifoldebau portffolio.

- 6.2 Rhaid i'r aelod cabinet nodi at ba ddibenion y gallai'r wybodaeth honno gael ei defnyddio neu ei datgelu fesul achos unigol.
- 6.3 Pan fo'r Aelod Cabinet yn gallu mynd â chopi o'r wybodaeth bersonol i ffwrdd o'r fangre, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y data'n cael ei gadw'n ddiogel ac nad yw'n cael ei rannu mewn modd amhriodol.

## **7. Datgelu i Gyngorydd pan fo'n cynrychioli plaid wleidyddol**

- 7.1 Ni ddylai'r Cyngor fynd ati fel rheol i ddatgelu gwybodaeth bersonol i aelodau etholedig at ddibenion gwleidyddol heb sicrhau cydsyniad yr unigolion o dan sylw.
- 7.2 Ceir dau eithriad yn hyn o beth:
  - Setiau o wybodaeth bersonol y mae'n ofynnol i'r Cyngor drefnu ei bod ar gael yn gyhoeddus, er enghraifft, rhestrau o rai mathau o ddeiliad trwydded
  - Gwybodaeth bersonol a gyflwynir ar ffurf agregedig ac nad yw'n enwi unrhyw unigolion naturiol byw, er enghraifft, gwybodaeth am fandiau treth gyngor neu wybodaeth ystadegol. (Er hynny, byddai'r Ddeddf yn cael ei thorri pe bai gwybodaeth bersonol yn cael ei rhyddhau ar ffurf sy'n edrych fel pe bai'n ddiennw, ond y gellid ei chysylltu â'r unigolion o dan sylw, er enghraifft, drwy gymharu data ynglŷn ag eiddo â'r gofrestr etholiadol.)

## **8. Ceisiadau am Ddata Personol sy'n cael ei ddal gan Gyngorwyr**

- 8.1 Os caiff y Cyngor gais am wybodaeth sy'n cael ei dal yn electronig ar gyfrif ebost [bridgend.gov.uk](http://bridgend.gov.uk) Cyngorydd, caiff y cais ei weinyddu gan Dîm Gwybodaeth y Cyngor. Hysbysir y cyngorydd a thrafodir ble mae'r wybodaeth yn cael ei dal. Bydd y gwaith i gael gafael ar yr wybodaeth yn cael ei wneud ar ran y Cyngorydd a chaiff yr wybodaeth ei chyrrchu gan swyddogion.
- 8.2 Os ceir cais am wybodaeth o'r fath, dylai'r Gyngorwyr fod yn ymwybodol y byddai Cod Ymddygiad yr Aelodau'n cael ei dorri ac y byddai'n drosedd dileu unrhyw wybodaeth sy'n cael ei dal ac sy'n dod o fewn paramedrau'r cais.
- 8.3 Caiff unrhyw gopiâu caled o wybodaeth eu gweinyddu yn yr un modd â gwybodaeth electronig.

## **9. Rheoli Risg, Cadw Cofnodion a Chydweithredu**

- 9.1 Dylai gwaith i rannu categorïau arbennig o ddata personol gael ei wneud bob amser â gofal a diwydrwydd priodol. Dylai gwaith i rannu data o'r fath gael ei wneud bob amser gan ddeall bod angen safon uwch o ofal a sylw pan fydd y data nid yn unig yn bersonol ond hefyd yn sensitif o ran ei natur.

- 9.2 Mae'r protocol hwn wedi'i seilio ar y darpariaethau i ganiatáu prosesu categorïau arbennig o ddata personol a amlinellir yn Rhan 2, Atodlen 1 o Ddeddf Diogelu Data 2018. Mae'n arddel ymagwedd at rannu categorïau arbennig o ddata personol sydd wedi'i seilio ar synnwyr cyffredin, heb orfod sicrhau cydsyniad caniatâd ysgrifenedig pendant.
- 9.3 **Er hynny, nid yw'r protocol hwn yn gyfystyr â llif gwybodaeth dirwystyr heb unrhyw fesurau diogelwch, sydd i gyd wedi'u nodi uchod. Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn glir bod rhaid i waith i brosesu gwybodaeth fod yn angenrheidiol, yn gyfyngedig o ran amser a chael ei gyfyngu i ddibenion penodol.**

Enghreifftiau y mae'r protocol hwn a'r ffurflen yn Atodiad 1 yn ceisio mynd i'r afael â nhw:

Mae cynghorydd yn cael cydsyniad gan etholwr i gwyno am fater. Rhoddir cydsyniad llafar i'r Cynghorydd godi'r mater gyda'r Cyngor a gweld categorïau arbennig o ddata personol 'x'. Mae'r Cyngor yn derbyn bod y cais yn un dilys ac yn copïo ac yn darparu ffeil gyfan yn

cynnwys gwybodaeth 'x' ac 'y'. Mae'r Cyngor wedi darparu gwybodaeth y tu hwnt i rychwant y cydsyniad ac felly mae wedi torri'r Ddeddf Diogelu Data.

Mae Cynghorydd yn cael cydsyniad gan etholwr i gwyno am fater. Rhoddir cydsyniad llafar i'r Cynghorydd godi'r mater gyda'r Cyngor a gweld categorïau arbennig o ddata personol 'x'. Mae'r Cyngor yn derbyn bod y cais yn un dilys ac yn copïo ac yn darparu gwybodaeth 'x'. Ar ôl delio â'r gŵyn ar ran ei etholwr, mae'r Cynghorydd wedyn yn defnyddio'r data at ddibenion eraill yn ystod dadl ynglŷn â mater tebyg heb siarad â'r etholwr yn gyntaf. Mae'r Cynghorydd wedi mynd y tu hwnt i rychwant y cydsyniad a roddwyd ac wedi torri'r Ddeddf Diogelu Data.

- 9.4 Mae'n bwysig felly sicrhau deialog agored rhwng yr unigolyn a'r cynrychiolydd etholedig a rhwng y cynrychiolydd etholedig a'r Cyngor. Dylai pob unigolyn fod yn glir ynghylch ffiniau'r cydsyniad a roddwyd ac i ba raddau y mae angen datgelu gwybodaeth. Mae yna ddisgwyliad o gydweithredu, cynghori a chynorthwyo i sicrhau na fydd data yn cael ei rannu'n ddiawdurdod.
- 9.5 Nid yw'r protocol hwn yn gorchymyn bod y rhai sy'n gysylltiedig â rhannu categorïau arbennig o ddata personol yn cadw cofnodion a chydsyniadau ysgrifenedig yn ychwanegol at y rhestr wirio yn Atodiad 1. Er hynny, rhagwelir y bydd yna amgylchiadau sy'n cyfiawnhau cymryd gofal ychwanegol a chadw cofnod clir.
- 9.6 Bydd aelod etholedig yn cael ei gyfarwyddiadau mewn amryw o ffyrdd – e-bost, ffôn neu mewn cymhorthfa er enghraifft. Gall y cyfarwyddiadau i weithredu ar ran yr unigolyn gael eu rhoi ar adeg o argyfwng / cynnwrf i'r etholwr, ar fyr rybudd, gan ofyn am weithredu ar unwaith ac yn ystod sgwrs fer mewn man cyhoeddus. Dylai'r aelod etholedig ystyried sensitifrwydd y data y gofynnir iddo ei weld a pha mor glir yw'r cyfarwyddiadau i weithredu. Nid yw'r protocol hwn yn gorchymyn bod yr aelod etholedig yn cadw ei gofnodion ei hunan ond i arfer ei grebwyll ynghylch yr amgylchiadau lle y byddai'n fuddiol cael cofnod o'r fath os ceir cwyn wedyn.
- 9.8 Dim ond cyhyd ag y bydd mater yr unigolyn yn fater byw y dylai aelod etholedig gadw data personol. Bydd hyn yn fater o farn i'r aelod etholedig ar sail ei wybodaeth a'i brofiad o weithio ar ran ei etholwyr.
- 9.9 Dylai'r aelodau fod yn ymwybodol bod angen iddyn nhw drefnu diogelwch priodol i warchod gwybodaeth bersonol. Rhaid iddyn nhw gymryd i ystyriaeth natur yr wybodaeth a'r niwed a all ddeillio ohoni. Dylent ystyried pa fesurau technegol a threfniadol, megis defnyddio

cyfrineiriau, syh briodol i gadw'r wybodaeth yn ddiogel. Rhaid i'r Cyngor hefyd gymryd camau priodol yn yr un modd.

9.10 Mae yn y Ddeddf nifer o droseddau, sy'n cynnwys:

- Methu cofrestru fel Rheolwr Data gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth pan fo angen gwneud hynny
- Sicrhau datgeliadau gwybodaeth bersonol heb awdurdod
- Sicrhau neu ddatgelu data personol yn anghyfreithlon
- Newid data personol i'w atal rhag cael ei ddatgelu i destun data
- Ailddyddodi data bersonol y tynnwyd y dynodwyr ohono heb gydsyniad y rheolwr data

# Atodiad 1



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	
<b>Rhestr Wirio Datgelu Categoriâu Arbennig o Ddata Personol</b>	
<b>Enw'r Cynghorydd:</b>	
<b>Ward/Portffolio:</b>	
<b>Yn cynrychioli:</b>	

Er mwyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr roi categorïau arbennig o ddata personol unigolyn i Gy nghorydd, rhaid cytuno yn gyntaf ar y pwyntiau a ganlyn:

Disgrifiad	Ticiwch i gytuno
1. Fi sy'n cynrychioli'r portffolio/y ward mae'r unigolyn yn byw ynddi	
2. Mae cydsyniad wedi'i roi gan yr unigolyn ymlaen llaw i mi sicrhau'r data hwn ar ei ran. <i>Os yw'r atgyfeiriad oddi wrth unigolyn gwahanol i wrthrych y data, edrychwch ar y polisi, os gwelwch yn dda, neu cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data.</i>	
3. Dim ond at ddibenion yr achos hwn y byddaf yn defnyddio'r data hwn	
4. Byddaf yn sicrhau fy mod yn cadw'r data'n ddiogel ac na fyddaf yn rhannu'r data'n fwriadol gydag unrhyw bartïon diawdurdod	
5. Rwy'n deall y gallaf fod yn bersonol atebol am ddefnyddio data personol yn esgeulus neu ei gamddefnyddio	
6. Byddaf yn rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw gamddefnydd ar y data hwn i Swyddog Diogelu Data y Cyngor	

## Manylion Gorfodol

**Pam mae angen yr wybodaeth hon/y data hwn?**

**Beth fyddwch chi'n ei wneud â'r wybodaeth/data?**

**Gyda phwy fyddwch chi'n rhannu'r wybodaeth/data?**

**Llofnod:**

**Dyddiad:**

## Atodiad 2

# FFURFLEN CANIATÂD

Deallaf fod ar y Cyngorydd .....angen defnyddio fy manylion personol, fel bo'n briodol, er mwyn ei gynorthwyo ef/hi gyda'r mater y cysylltais ag ef/hi yn ei gylch.

Rwyf yn cadarnhau bod y Cyngorydd yn gweithredu ar fy rhan ac rwyf yn rhoi caniatâd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr roi fy ngwybodaeth bersonol i'r Cyngorydd .....gan gynnwys data categori arbennig (gwybodaeth sensitif) fel y gall ef/hi gymryd camau gweithredu mewn cysylltiad â'm hatgyfeiriad Aelod ac wrth wneud gwaith achos etholaethol.

Rwyf yn deall mai fy nata personol i yn unig fydd yn cael ei ddatgelu ac na chaiff y Gyfarwyddiaeth ddatgelu gwybodaeth am unigolion eraill heb eu caniatâd hwy wedi ei ddatgan yn glir.

Deallaf ei bod yn bosibl imi dynnu fy nghaniatâd yn ôl ar unrhyw adeg drwy hysbysu'r Cyngorydd yn ysgrifenedig.

Rwyf yn cadarnhau bod y Cyngorydd wedi trafod hyn â mi ac wedi rhoi copi o'i hysbysiad preifatrwydd ef/hi imi, yn amlinellu'r modd yr ymdrinnir â'm data personol.

ENW:			
CYFEIRIAD:			
COD POST:		FFÔN:	
E-BOST:			
DYDDIAD GENI:			
LLOFNOD:			